**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Ardal Severnside held at Innovation House Magor - Room 8 Innovation House Magor on Dydd Mercher, 27ain Ebrill, 2016 at 10.00 am**

**PRESENT:** County Councillors: A. Easson, L. Guppy, J. Higginson and J. Marshall

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Judith Langdon | Whole Place Officer |
| Debbie McCarty | Whole Place Manager |
| Deb Hill-Howells | Head of Community Led Delivery |
| Michael Richardson | Specialist Environmental Health Officer |
| Paula Harris | Democratic Services Officer |

**APOLOGIES:**

County Councillors J. Crook and F. Taylor

1. **Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Crook a F. Taylor.

2. **Declaration of Interest**

Ni dderbyniwyd un.

3. **Public Forum**

Nid oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

4. **Minutes of previous meeting**

Llofnodwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 15ted Mawrth 2016.

5. **Whole Place Update**

Darparodd y Swyddogion ddiweddariad ar y gweithgareddau a gefnogodd y Cynllun Lle Cyfan yng Nglan Hafren.

Y rhain oedd:

Gweithgareddau'n gysylltiedig â Thîm Tref Cil-y-coed, gan nodi y byddai dau achos busnes yn mynd i'r Cabinet i'w cymeradwyo ar 4ydd Mai.

Diweddariad yn gysylltiedig â datblygiad Ysgol yr 21ain Ganrif . Roedd yr ysgol yn dal ar y llwybr iawn i'w hagor ym Medi 2017 fel y cynlluniwyd yn wreiddiol. Bu cyfarfod gyda'r contractwr a SEWSCAP (darparwr fframwaith Adeiladu) ynghylch manteision cymunedol yr wythnos hon . Roedd nifer o gyfleoedd ar gyfer prentisiaid, profiad gwaith ayyb. Ar y safle dros y 2 flynedd nesaf a hefyd swm o arian y gellir ei gyrchu ar gyfer prosiectau a chynlluniau cymunedol.

Roedd y Grŵp Trafnidiaeth Gynaliadwy yn y broses o gael ei sefydlu, yn cael ei arwain gan Mr Paul Turner a fu'n ymwneud â Grŵp Gorsaf Magwyr. Roedd Paul wedi'i gefnogi mewn ymarfer mapio rhanddeiliaid i gefnogi datblygiad y grŵp.

Mae Hyb Cil-y-coed bellach wedi'i ailfodelu'n fewnol i wneud y gofod yn haws i'w ddefnyddio a'r pwyntiau gwasanaeth cwsmer yn fwy hygyrch. Derbyniwyd adborth cadarnhaol iawn gan y cyhoedd hyd yn hyn.

## 6. Town Team Update with Aaron Weeks

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad gan Dîm y Dref oddi wrth Aaron Weeks, cynhwysai'r rhain:

**Diweddariad Cyswllt**
Yn ddiweddar galwodd Tîm Tref Cil-y-coed gyfarfod rhwng Cyngor Sir Fynwy, London & Cambridge a Waitrose, pan ddaeth yn eglur nad oedd gan y prosiect unrhyw fwriad i symud i'r cam nesaf o waith adeiladu yn Ionawr, prosiect y cawsom sicrwydd yn ei gylch fisoedd cyn y Nadolig. Daeth yn amlwg, yn ystod y cyfarfod bod y ffigyrau gan y ddwy ochr yn gwbl wahanol, yn amrywio o orwariant o £30+Mil i orwariant o £100+Mil. Yn ystod y bore cytunodd Waitrose a London & Cambridge i dalu costau'r gwaith o ail-wynebu maes parcio Waitrose, a fyddai'n lleihau'r gost. Gwnaeth L&C yn glir eu bod yn buddsoddi yn y prosiect a'u bod wedi ymrwymo iddo, ond nid oeddent yn barod i roi unrhyw gyllid pellach i'r prosiect. Dywedodd Waitrose hefyd eu bod wedi ymrwymo, ond ni fyddent yn rhoi unrhyw incwm pellach i'r prosiect. Dywedodd CSF hefyd fod y Cyngor wedi ymrwymo i'r prosiect. .

Gorffennodd y cyfarfod gyda'r holl bartïon yn cytuno i fynd ymaith a dod yn ôl ymhen wythnos wedi ystyried y canlynol:

- Union gostau a gorwariant y prosiect
- A oedd yn hyfyw i Waitrose godi unrhyw incwm pellach o'r prosiect.
- A oedd unrhyw opsiynau cyllid pellach y gellid eu hymchwilio, megis vvp, arian cyfatebol ayyb.
- Mae'r costau wedi dod yn ôl, sy'n dangos bod y gorwariant yn £90 mil neu oddeutu £90 mil . Nid yw Waitrose yn gallu codi unrhyw incwm pellach, ond mae wedi cytuno i gymryd hanner cost y prosiect i roi wyneb newydd.

Bydd diweddariad i ddod.

**Prosiect Marchnadoedd**
Yn dilyn ymlaen o'n prosiect peilot yn 2015, mae Tîm Tref Cil-y-coed yn rhedeg 10 marchnad bellach yn 2016 ac wedi cyflwyno achos busnes i gyfarfod diwethaf y bwrdd rhaglenni, a argymhellwyd i'w gymeradwyo. Cynhwysai hyn ymgyrch marchnata eang i hyrwyddo marchnad Cil-y-coed a'n marchnadoedd arbenigol. Mae hefyd yn cynnwys prynu stondinau marchnad, wedi'u brandio â logo tîm tref Cil-y-coed, a bydd yn helpu i leihau costau ac amser yn sylweddol wrth gynnal marchnadoedd. Bydd y rhain hefyd ar gael i'w llogi am £4 y dydd yn unig.
Ein marchnad gyntaf eleni oedd marchnad Gymreig er budd yr Eisteddfod, yn ystod y digwyddiad fe godwyd £250 i'r Eisteddfod, sy'n cynnwys ffioedd y llain. Fe godwyd oddeutu £50 gennym wrth werthu tocynnau raffl i ennill y car.

**Siopau Codi'n Chwap yn bwrw Cil-y-coed**
Rydym ar hyn o bryd yn gweithio ar brosiect i agor siop codi'n chwap o fewn y canol tref (yr uned drws nesaf i deithio Morgan) Bydd busnesau'n gallu rhentu'r siop oddi wrthym ni ar gost o

£10 y dydd neu £50 yr wythnos, hyd at fwyafswm o bythefnos. Bydd hyn yn rhoi cyfle iddynt brofi – masnachu o fewn y dref, heb y risg o orbenion uchel neu brydlesau maith. Os, wedi cyfnod, y dymuna'r busnes aros yn hwy, rydym eisoes wedi gosod cytundebau yn eu lle i gynnig tenantiaethau 3,6,9 neu 12 mis ar gyfer unedau gwag eraill o fewn y dref.

Y nod yw darparu bywiogrwydd a bwrlwm o fewn y canol tref, tra rydym yn rhoi rheswm ychwanegol i siopwyr i ailymweld â'r dref, gan y bydd busnesau'n newid yn rheolaidd. Bydd Grwpiau Pwyllgora hefyd yn gallu defnyddio'r uned siop, yn rhad ac am ddim, i'w galluogi i osod sioe neu weithgarwch untro ymlaen o fewn y dref. Bydd yr uned a'r prosiect yn weithredol erbyn canol Mai (er mai yn gynnar ym Mehefin y mae'r agoriad swyddogol yn debygol, o ganlyniad i logiadau eisoes yn eu lle). Rydym wedi bod yn wirioneddol lwcus i allu cymryd y brydles am gyfnod o 12 mis yn hollol rydd o rent. Gyda bod yn gymwys ar gyfer gostyngiadau treth yn ogystal mae'r prosiect cyfan yn costio llai na £5,000. Lluniwyd y dyluniadau ar gyfer y prosiect gan fyfyriwr celf Blwyddyn 10 o ysgol Cil-y-coed, a bydd Webber Design yn gwneud ein holl ddeunydd marchnata a dylunio yn rhad ac am ddim, a datgelir hyn o fewn yr ychydig wythnosau nesaf.

**Wi-Fi**

Ers i'r prosiect gael ei roi o'r neilltu t llynedd o ganlyniad i ddiffyg ymrwymiad gan Spectrum Internet rydym nawr wedi dod o hyd i gyflenwr arall Solvings UK sydd wedi dod o hyd i brosiect amgen rhatach i ddarparu Wi-Fi yn rhad ac am ddim i ganol tref Cil-y-coed. Gwneir cysylltiadau o fewn y colofnau Teledu Cylch Cyfyng, fydd yn allyrru signal Wi-Fi, a bydd yn gwasanaethu'r canol tref cyfan, heb yr angen i osod ceblau ar hyd adeiladau, pwyntiau hygyrchedd caled o fewn llefydd busnes ayyb. Mae'r prosiect ar hyn o bryd yn disgwyl cymeradwyaeth gan Roger Joy ac Andrew Mason yng Nghyngor Sir Fynwy, a dylai'r gosodiad gymryd llai nag ychydig wythnosau wedi i hyn gael ei gymeradwyo.

**Prosiect Dyluniad Dinesig**

Mae'r adroddiad terfynol wedi'i gynhyrchu gan Roberts Limbrick, sydd wedi'i gylchynu i'r Cyngor Tref a rhanddeiliaid. Yn anffodus, mae'n hamser terfyn wedi llithro i ddarparu adroddiad amlinellol i mewn i'r cam nesaf, o ganlyniad i'r nifer fawr o brosiectau rydym ar hyn o bryd yn ymwneud â hwy, ond mae gwaith wedi bod yn digwydd yn y dirgel gyda'r landlordiaid newydd yn y dref, a siarad â rhanddeiliaid allweddol ynghylch y prosiect yn fanylach.

## 7. Super Fast Business Wales

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Leigh Gripton o Super-Fast Business Wales.

Mae Mr Gripton mwn cyswllt rheolaidd gyda Chyngor Sir Fynwy a'r Swyddog arweiniol ar y mater hwn, James Woodcock.

Roedd yn eiddgar i'r Pwyllgor ddefnyddio'u gwybodaeth leol a'u cysylltiadau lleol i annog busnesau lleol i gymryd mantais o'r cynllun newydd, a ddechreuodd yn Ebrill 2016, a ddynodwyd i ddarparu cyngor digidol a chefnogaeth yn rhad ac am ddim. Mae'n hapus i fynychu cyfarfodydd pan fydd yn gyfleus i fusnesau lleol a gadawodd ei fanylion cyswllt gyda holl aelodau'r pwyllgor.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Ardal Severnside held at Innovation House Magor - Room 8 Innovation House Magor on Dydd Mercher, 27ain Ebrill, 2016 at 10.00 am**

8. **Pigeons**

Rhoddodd Swyddog o'r Adran Iechyd Amgylcheddol ddiweddariad i'r pwyllgor ynghylch colomennod yn nhref Cil-y-coed. .

Roedd 15 o gwynion wedi'u derbyn ynghylch y colomennod a chwyn am berson yn bwydo'r adar yn gyson.

Dywedwyd wrthym fod Cyngor y Dref wedi cymeradwyo didol a difa, yn amodol ar gymeradwyaeth yr Heddlu, a rhoddir diweddariad i'r pwyllgor ar y mater hwn maes o law.

9. **To confirm date and time of the next meeting**

Dyddiad y cyfarfod nesaf yw 27ain Mehefin 2016 am 10am.

**The meeting ended at 11.25 am**